Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

# 2025 Rhif 101 (Cy. 24)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# DIGOLLEDU, CYMRU

# Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn cynyddu uchafsymiau ac isafsymiau'r taliadau colli cartref sy'n daladwy o dan Ddeddf Digollediad Tir 1973 ("y Ddeddf") i'r rhai sy'n meddiannu annedd, neu sy'n cael eu trin fel pe baent yn meddiannu annedd, sydd â buddiant perchennog. Mae'r Rheoliadau hyn yn cynyddu hefyd swm y taliad colli cartref sy'n daladwy o dan y Ddeddf mewn unrhyw achos arall.

Mae gan berson a ddadleolir o annedd drwy brynu gorfodol neu o dan amgylchiadau eraill a bennir yn adran 29 o'r Ddeddf hawlogaeth i gael taliad colli cartref.

Mewn achosion pan fo gan berson sy'n meddiannu annedd, neu sy'n cael ei drin fel pe bai'n meddiannu annedd, ar ddyddiad y dadleoli fuddiant perchennog, mae adran 30(1) o'r Ddeddf yn darparu bod swm y taliad colli cartref yn cael ei gyfrifo fel canran o werth y buddiant hwnnw ar y farchnad, a hynny'n ddarostyngedig i uchafswm ac isafswm.

Mae adran 30(2) o'r Ddeddf yn pennu swm y taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall.

Mae rheoliad 2(a) o'r Rheoliadau hyn yn cynyddu'r uchafswm sy'n daladwy o dan adran 30(1) o'r Ddeddf o £62,000 i £82,000 ac mae rheoliad 2(b) yn cynyddu'r isafswm o £6,200 i £8,000.

Mae rheoliad 2(c) yn cynyddu'r taliad colli cartref mewn unrhyw achos arall, o dan adran 30(2) o'r Ddeddf, o £6,200 i £8,000.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Mae rheoliad 3 yn dirymu, gydag arbedion, Reoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2020.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 101 (Cy. 24)

# CAFFAEL TIR, CYMRU

# DIGOLLEDU, CYMRU

## Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *30 Ionawr 2025* |
| *Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* | *3 Chwefror 2025* |
| *Yn dod i rym* | *5 Mawrth 2025* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 30(5) o Ddeddf Digolllediad Tir 1973(**1**).

**Enwi, dod i rym, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2025 a deuant i rym ar 5 Mawrth 2025.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Digolllediad Tir 1973;

mae i "taliad colli cartref" yr ystyr a roddir i "home loss payment" gan adran 29(1) o'r Ddeddf.

(**1**) 1973 p. 26. Amnewidiwyd adran 30 gan adran 68(3) o Ddeddf Cynllunio a Digolledu 1991 (p. 34) gydag effaith o 25 Medi 1991 (*gweler* erthygl 3 o O.S. 1991/2067). Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 30, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 30 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio symiau rhagnodedig y taliad colli cartref**

**2.** Pan fo dyddiad y dadleoli ar 5 Mawrth 2025 neu ar ôl hynny—

(a) £82,000 yw uchafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf,

(b) £8,000 yw isafswm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(1) o'r Ddeddf, ac

(c) £8,000 yw swm rhagnodedig y taliad colli cartref at ddibenion adran 30(2) o'r Ddeddf.

**Dirymu ac arbedion**

**3.**—(1) Mae Rheoliadau Taliadau Colli Cartref (Symiau Rhagnodedig) (Cymru) 2020(**1**) wedi eu dirymu.

(2) Bydd y Rheoliadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) yn parhau i gael effaith mewn perthynas â dadleoli sy'n digwydd cyn 5 Mawrth 2025.

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
30 Ionawr 2025

(**1**) O.S. 2020/340 (Cy. 77).